Asesiad o'r Effaith ar Iechyd - wedi'i ddrafftio: Medi 26

Enw'r penderfyniad: Fframwaith Cenedlaethol Diwygiedig ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth: Cod Ymarfer.

Diben/nod y penderfyniad:

Mae'r cynnig yn adolygu ac yn diweddaru'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth: Cod Ymarfer (y cyfeirir ato yn y ddogfen hon fel "y Cod").

Bwriad y diwygiadau yw cryfhau arferion comisiynu ledled Cymru, cefnogi mwy o gysondeb ac atebolrwydd, gwella integreiddio a chydweithio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, a sicrhau bod penderfyniadau comisiynu'n cael eu llywio gan dystiolaeth, profiad bywyd a ffocws ar ganlyniadau. Maen nhw'n atgyfnerthu ein hymrwymiad i waith teg, cydraddoldeb, hawliau dynol, y Gymraeg a chymorth i ofalwyr di-dâl hefyd. Yn y pen draw, y nod yw cefnogi canlyniadau gwell i bobl, teuluoedd a chymunedau trwy gomisiynu mwy cyson, sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Trwy gryfhau comisiynu ataliol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gall y Cod diwygiedig gynorthwyo gwasanaethau i ddeall ac ymateb yn well i gryfderau, anghenion a chanlyniadau personol pobl, gan gyfrannu at well lles, annibyniaeth a mynediad cyfartal at ofal a chymorth.

Penderfynu a oes angen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, ystyried yr effeithiau ar iechyd wrth gynnig **gwneud penderfyniad o natur strategol ynghylch sut i arfer eu swyddogaethau.**

<u>Dirprwy Gyfarwyddwyr sy'n gyfrifol</u> am benderfynu a yw penderfyniad yn un sydd angen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd o dan y Rheoliadau.

- Os yw hwn **<u>yn</u>** benderfyniad o natur strategol ynglŷn â sut mae Gweinidogion Cymru yn arfer eu swyddogaethau: llenwch **Adran A.**

- Os **<u>nad</u>** yw hwn yn benderfyniad o natur strategol ynglŷn â sut mae Gweinidogion Cymru yn arfer eu swyddogaethau ond y **byddai'n fuddiol ymgymryd ag Asesiad o'r Effaith ar Iechyd:** llenwch **Adran A.**

- Os **<u>nad</u>** yw hwn yn benderfyniad o natur strategol ynglŷn â sut mae Gweinidogion Cymru yn arfer eu swyddogaethau ac **na fyddai'n fuddiol ymgymryd ag Asesiad o'r Effaith ar Iechyd:** llenwch **Adran B.**

- **<u>Rhaid</u> i <u>bawb</u>** lenwi **Adran C.**

ADRAN A – Cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

Grŵp/Grwpiau Poblogaeth yr effeithir arnynt gan benderfyniad / polisi

- Pa wybodaeth sydd gennych am y grŵp/grwpiau poblogaeth yr ystyrir yn rhesymol y gallai eu hiechyd corfforol neu feddyliol gael eu heffeithio gan y penderfyniad?

Mae'r Cod diwygiedig yn debygol o effeithio ar bobl sy'n derbyn gofal a chymorth yng Nghymru neu a allai fod eu hangen, gofalwyr di-dâl a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Rhoddwyd sylw arbennig i blant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl anabl, pobl niwrowahanol, pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig neu mewn cymunedau difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol, siaradwyr Cymraeg, pobl ag anghenion cyfathrebu, cymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a grwpiau ethnig leiafrifol eraill, lle bo hynny'n briodol. Mae'r Cod diwygiedig yn debygol o effeithio hefyd ar gomisiynwyr, darparwyr a sefydliadau partner sy'n ymwneud â chynllunio a darparu gwasanaethau gofal a chymorth ledled Cymru.

Nodi ac asesu effeithiau ar iechyd

- A fydd y penderfyniad yn cael unrhyw effeithiau bwriadol ar iechyd corfforol a meddyliol y grŵp/grwpiau poblogaeth a nodwyd?

- A fydd y penderfyniad yn cael unrhyw effeithiau anfwriadol, yr ystyrir eu bod yn debygol yn rhesymol, ar iechyd corfforol a meddyliol y grŵp/grwpiau poblogaeth a nodwyd?

- A oes sylw priodol wedi'i roi i'r canlynol:

- **Penderfynyddion iechyd ehangach:** mae hyn yn golygu'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a allai effeithio ar iechyd pobl?

- **Ffactorau tegwch iechyd:** mae hyn yn golygu unrhyw wahaniaethau mewn canlyniadau iechyd a chyfleoedd iechyd (h.y. cyfleoedd sydd ar gael i'r cyhoedd a allai hyrwyddo neu wella iechyd corfforol neu feddyliol) a achosir gan unrhyw sail, gan gynnwys:
    (i) statws economaidd-gymdeithasol,
    (ii) lleoliad daearyddol, a
    (iii) bod yr unigolyn yn meddu ar nodwedd warchodedig o fewn ystyr Pennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

- Dylid ystyried yr effeithiau **byrdymor** a **hirdymor** yn unol â'r 5 ffordd o weithio (Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys, Hirdymor, Atal).

Bwriad yr adolygiad o'r Cod yw cryfhau prosesau comisiynu sy'n cefnogi arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ledled Cymru. Ei nod yw gwella cysondeb ac ansawdd y gwasanaethau a gomisiynwyd, hyrwyddo mynediad cyfartal at wasanaethau, a chefnogi gwell integreiddio rhwng partneriaid iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector. Mae'r adolygiad yn ceisio atgyfnerthu dulliau ataliol hefyd, gan helpu pobl i gynnal annibyniaeth, lles a chyfranogiad cymunedol wrth sicrhau bod trefniadau gofal a chymorth yn ymateb i anghenion ac amgylchiadau unigol.

Bydd y diwygiadau yn cryfhau ymwybyddiaeth o anghenion pobl niwrowahanol, a'r ymateb iddynt, gan gefnogi prosesau comisiynu a darparu gwasanaethau mwy cynhwysol.

Gallai mwy o gysondeb wrth gymhwyso'r Cod ledled Cymru leihau amrywiad yn y ddarpariaeth a gwella mynediad cyfartal at ofal a chymorth.

Gall gwell integreiddio rhwng iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus ehangach leihau gofal tameidiog a helpu i atal dirywiad mewn iechyd a lles. Gall y Cod diwygiedig gael effeithiau cadarnhaol hefyd ar ofalwyr di-dâl trwy gefnogi dulliau mwy cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o gynllunio a darparu gofal a chymorth. Gall hyn helpu i wella mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth a chyfrannu at les gofalwyr.

Disgwylir i'r effaith gyffredinol fod yn gadarnhaol; fodd bynnag, gall rhai effeithiau anfwriadol godi yn ystod y broses weithredu. Gall newidiadau i ganllawiau, prosesau neu arferion greu ansicrwydd ar y cychwyn i ymarferwyr, gofalwyr a phobl sy'n derbyn gofal a chymorth, gan effeithio o bosibl ar les a hyder yn y tymor byr. Gall gofynion hyfforddi a gweithredu ychwanegol roi pwysau dros dro ar allu'r gweithlu a lles staff.

Mae yna risg hefyd y gallai gweithredu amrywio ar draws rhanbarthau, gan arwain at anghysondebau mewn profiad neu ganlyniadau. Gall rhai grwpiau, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, sydd ag anghenion cyfathrebu, anableddau, neu rwystrau iaith, brofi heriau wrth ymgysylltu â phrosesau diwygiedig oni bai bod cymorth priodol a gwybodaeth hygyrch yn cael eu darparu. Bydd gwahaniaethau yng ngallu timau comisiynu ledled Cymru yn effeithio ar effeithiau'r adolygiad ar gydweithwyr sy'n gweithredu'r newid. Gallai effeithio ar bobl sy'n derbyn y gwasanaethau gofal a chymorth a gomisiynwyd hefyd.

Rhoddwyd sylw priodol i benderfynyddion iechyd ehangach trwy ystyried sut mae'r Cod yn dylanwadu ar gynhwysiant cymdeithasol, mynediad at wasanaethau, byw'n annibynnol, cyflogaeth a chyfranogiad economaidd, cysylltiadau cymunedol, ac anghenion diwylliannol ac ieithyddol.

Mae'r adolygiad yn cydnabod bod amrywiaeth o ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn effeithio ar iechyd a lles y tu hwnt i ddarpariaeth gofal uniongyrchol. Gall cefnogi gwasanaethau i ymateb i anghenion diwylliannol, ieithyddol a chyfathrebu pobl, gan gynnwys trwy'r Gymraeg, gyfrannu at well profiadau o ofal a chymorth a chefnogi lles ac urddas unigolion.

Mae ystyriaethau o ran tegwch iechyd hefyd wedi llywio'r adolygiad, gyda sylw penodol yn cael ei roi i bobl a allai brofi canlyniadau iechyd gwaeth neu rwystrau o ran cael mynediad at ofal a chymorth, gan gynnwys pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol, cymunedau gwledig, pobl anabl, pobl hŷn, gofalwyr di-dâl, grwpiau ethnig leiafrifol, a phobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nod yr adolygiad yw lleihau amrywiad diangen wrth ddarparu gwasanaethau a hyrwyddo mynediad teg a chyfartal at ofal a chymorth ledled Cymru.

Bydd ymgysylltu parhaus, cyfathrebu hygyrch, datblygu a monitro'r gweithlu yn helpu i sicrhau bod buddion yn cael eu gwireddu'n gyfartal ar draws grwpiau poblogaeth a bod unrhyw anghydraddoldebau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu nodi a'u datrys. Pan gaiff ei weithredu'n gyson, gall y Cod diwygiedig gyfrannu at leihau anghydraddoldebau mewn mynediad at ofal a chymorth trwy hyrwyddo dulliau comisiynu sy'n ymateb i anghenion poblogaeth leol ac yn cefnogi canlyniadau teg.

Tystiolaeth ac ymgysylltu

- Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio? (e.e. ymchwil, data, asesiadau blaenorol)
- Myfyrio ar unrhyw dystiolaeth o waith ymgysylltu/ymwneud â grŵp poblogaeth perthnasol yn unol â'r 5 ffordd o weithio

Rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr ar draws y llywodraeth i gasglu tystiolaeth amrywiol er mwyn cefnogi'r adolygiad. Roedd y dystiolaeth yn cynnwys data a dadansoddiad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Gofal Cymdeithasol Cymru, Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad ac Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth. Fe wnaethom ystyried yr Asesiad Effaith Integredig hefyd wrth i'r cod gwreiddiol gael ei osod ym mis Medi 2024.

Rydym wedi ymgymryd â gwaith ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Sefydlwyd grwpiau rhanddeiliaid mewnol ac allanol i drafod yr adolygiad o'r Cod. Rhannwyd drafft cynnar o newidiadau posibl a awgrymwyd i'r cod ar draws rhwydwaith llawer ehangach o randdeiliaid hefyd, gan gynnwys:

- Comisiynwyr mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol a thimau rhanbarthol,
- Darparwyr a chyrff cynrychiadol darparwyr
- Y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant
- Undebau llafur sy'n cynrychioli gweithwyr gofal
- Cyrff llais dinasyddion
- Timau polisi yn Llywodraeth Cymru
- Cydweithwyr rheoleiddiol

Lliniaru a gwella

- Pa gamau y gellid eu hystyried yn rhesymol i **atal, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol**?

- Pa gamau y gellid eu hystyried yn rhesymol i gynyddu **unrhyw effeithiau cadarnhaol**?

Er bod disgwyl i'r adolygiad gael effeithiau cadarnhaol yn bennaf, bydd y camau canlynol yn helpu i liniaru unrhyw risgiau posibl, cefnogi gweithredu effeithiol a chynyddu'r manteision i bobl sy'n cael mynediad at ofal a chymorth, gofalwyr di-dâl, ymarferwyr a darparwyr.

Gallai'r camau canlynol helpu i atal, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl:

- Byddwn yn parhau i ddatblygu canllawiau clir a chynnal prosesau da o ran cyfathrebu a gweithredu er mwyn lleihau ansicrwydd i ymarferwyr, pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, a gofalwyr di-dâl.

- Darparu hyfforddiant priodol a datblygu'r gweithlu er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyson a rhoi'r Cod diwygiedig ar waith ledled Cymru.

- Monitro'r broses o'i weithredu ar draws rhanbarthau er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw amrywiad anfwriadol mewn ymarfer neu ganlyniadau a llywio'r cymorth a ddarparwn.

- Sicrhau bod gwybodaeth, canllawiau a deunyddiau ategol ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys fersiynau Cymraeg a fformatau sy'n addas i bobl ag amhariadau ar y synhwyrau, anableddau dysgu ac anghenion cyfathrebu eraill.

- Ystyried goblygiadau o ran adnoddau ac amserlenni gweithredu er mwyn lleihau pwysau ychwanegol ar les y gweithlu a darparu gwasanaethau.

- Ymgymryd â gwaith monitro parhaus o effeithiau tegwch iechyd er mwyn sicrhau nad yw grwpiau difreintiedig neu grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn profi rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael mynediad at wasanaethau neu gymorth.

Gallai'r camau canlynol helpu i gynyddu effeithiau cadarnhaol yr adolygiad:

- Parhau i hyrwyddo'r Cod fel adnodd allweddol ar gyfer cefnogi ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Cryfhau cydweithio rhwng partneriaid iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i gefnogi gofal integredig a gwella canlyniadau.
- Parhau i fapio, disgrifio a rhannu dulliau atal ac ymyrryd yn fuan mewn canllawiau ymarfer i gefnogi ymarfer comisiynu sy'n helpu pobl i gynnal annibyniaeth a lles am gyfnod hirach.
- Parhau i rannu enghreifftiau o arferion da a dysgu ledled Cymru er mwyn annog cysondeb a gwelliant parhaus.
- Parhau i fynd ati mewn ffordd ystyrlon i gynnwys pobl â phrofiad bywyd, gofalwyr a sefydliadau cynrychiadol yn y broses o weithredu, gwerthuso a datblygu'r Cod yn y dyfodol.
- Cryfhau trefniadau casglu a gwerthuso data i fesur gwelliannau mewn lles, mynediad at wasanaethau a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau.
- Atgyfnerthu pwysigrwydd cymhwysedd diwylliannol a'r Gymraeg, gan sicrhau bod gwasanaethau'n ymatebol i anghenion diwylliannol, ieithyddol a chyfathrebu pobl.

Casgliad cyffredinol

O ystyried bod yr adolygiad yn ceisio egluro a chryfhau trefniadau presennol yn bennaf yn hytrach na chyflwyno newidiadau polisi sylweddol, disgwylir i'r effeithiau negyddol fod yn gyfyngedig ac yn drawsnewidiol i raddau helaeth. Dylai cyfathrebu effeithiol, cymorth i'r gweithlu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a monitro parhaus helpu i liniaru'r risgiau hyn. Mae cyfleoedd yn bodoli i wella effeithiau cadarnhaol trwy weithredu'n gyson, gwaith partneriaeth cadarn, cyfranogiad parhaus rhanddeiliaid a ffocws parhaus ar atal, lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Effeithiau cyffredinol ar iechyd

- Effaith gyffredinol ddisgwyliedig y penderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol a meddyliol unwaith y bydd camau lliniaru / gwella wedi'u cymryd: (Cadarnhaol / Negyddol / Cymysg / Niwtral)

- Effaith gyffredinol ddisgwyliedig ar anghydraddoldebau iechyd: (Lleihau / Cynyddu / Niwtral / Aneglur).

1. Effaith gyffredinol ddisgwyliedig y penderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol a meddyliol unwaith y bydd camau lliniaru/gwella wedi'u cymryd:

Trwy gryfhau dulliau comisiynu ataliol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, dylai'r Cod gefnogi gwell lles, annibyniaeth a mynediad at ofal a chymorth priodol. Disgwylir i well cysondeb mewn ymarfer ledled Cymru, ynghyd â gwell integreiddio rhwng gwasanaethau, gyfrannu at brofiadau a chanlyniadau gwell i bobl sy'n derbyn gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl. Rhagwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol posibl yn rhai tymor byr ac yn gysylltiedig â gweithredu a gellir eu lliniaru trwy

gyfathrebu effeithiol, cymorth i'r gweithlu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a monitro gweithredu'n barhaus.

2. Effaith gyffredinol ddisgwyliedig ar anghydraddoldebau iechyd:

Lleihau

Mae'r Cod yn cydnabod anghenion pobl a'u cymunedau a allai brofi rhwystrau wrth geisio cael mynediad at wasanaethau, gan gynnwys y rhai yr effeithir arnynt gan anfantais economaidd-gymdeithasol, gwledigrwydd, anabledd, oedran, cyfrifoldebau gofalu a nodweddion gwarchodedig eraill. Trwy well cysondeb, hygyrchedd, ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a monitro canlyniadau yn barhaus, dylai'r Cod diwygiedig helpu i leihau amrywiad diangen yn y ffordd rydym yn comisiynu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a chefnogi canlyniadau iechyd a lles tecach ar gyfer grwpiau poblogaeth amrywiol.

Dylanwad ar y broses o wneud penderfyniadau

- Sut mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wedi dylanwadu ar y penderfyniad?
- Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud o ganlyniad?
- Pa risgiau/effeithiau negyddol sy'n weddill?

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wedi helpu i sicrhau bod ystyriaethau iechyd, lles a thegwch iechyd wedi'u hymgorffori yn yr adolygiad o'r Cod diwygiedig. Mae wedi cryfhau'r ystyriaeth o sut y gall y Cod diwygiedig effeithio ar wahanol grwpiau poblogaeth, yn enwedig y rhai sy'n profi rhwystrau o ran cael mynediad at ofal a chymorth neu ganlyniadau iechyd gwael. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wedi atgyfnerthu pwysigrwydd dulliau ataliol a theg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi tynnu sylw at yr angen am weithredu hygyrch a monitro parhaus.

O ganlyniad i'r broses o Asesu'r Effaith ar Iechyd, mae'r adolygiad wedi gwneud y canlynol:

- Cryfhau'r ystyriaeth o degwch iechyd a'r effaith bosibl ar grwpiau dan anfantais ac agored i niwed..
- Atgyfnerthu pwysigrwydd cyfathrebu ac ymgysylltu hygyrch â phobl sy'n derbyn gofal a chymorth, gofalwyr di-dâl a sefydliadau cynrychiadol.
- Tynnu sylw at yr angen i weithredu'n gyson ledled Cymru er mwyn lleihau'r amrywiaeth mewn ymarfer a chanlyniadau.
- Pwysleisio pwysigrwydd canllawiau, hyfforddiant a chymorth y gweithlu er mwyn hwyluso gweithredu effeithiol.
- Cadarnhau'r angen am fonitro a gwerthuso parhaus er mwyn nodi unrhyw effeithiau sy'n dod i'r amlwg ar iechyd, lles ac anghydraddoldebau.
- Cefnogi ffocws parhaus ar atal, ymyrraeth gynnar, lles a'r dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau a welir yn y Cod.

Er bod disgwyl i'r effaith gyffredinol fod yn gadarnhaol, mae rhai risgiau o hyd:

- Gallai amrywioldeb wrth weithredu ar draws sefydliadau neu ranbarthau arwain at wahaniaethau mewn profiad a chanlyniadau.
- Gall pwysau o ran gallu'r gweithlu effeithio ar gyflymder a chysondeb gweithredu.

- Efallai y bydd rhai pobl yn parhau i wynebu rhwystrau i ymgysylltu, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag anabledd, anghenion cyfathrebu, allgáu digidol, iaith neu leoliad daearyddol.
- Gall ansicrwydd tymor byr godi wrth i ymarferwyr a rhanddeiliaid addasu i ganllawiau a phrosesau diwygiedig.
- Efallai na fydd y manteision disgwyliedig yn cael eu gwireddu'n llawn heb ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid, hyfforddiant, monitro a chanfod a darparu adnoddau priodol.

Nid yw'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wedi nodi unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar iechyd a fyddai'n atal yr adolygiad rhag mynd rhagddo. Yn hytrach, mae wedi helpu i gryfhau'r ffocws ar degwch, hygyrchedd, atal a gweithredu cyson. Ystyrir bod unrhyw risgiau sy'n weddill yn rhai y gellir eu rheoli a'u lliniaru trwy ymgysylltu parhaus, cymorth i'r gweithlu, cyfathrebu effeithiol a monitro canlyniadau'n rheolaidd.

Monitro ac adolygu parhaus

- Sut bydd yr effeithiau ar iechyd corfforol a meddyliol yn cael eu monitro?
- A oes unrhyw ddangosyddion neu ffynonellau data wedi'u nodi?
- A oes angen adolygiad pellach?

Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd hwn yn parhau i fod yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei adolygu trwy weithgarwch gweithredu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg. Dylai'r gwaith monitro ganolbwyntio ar y cwestiwn a yw'r Cod diwygiedig yn cefnogi gwell lles, annibyniaeth, mynediad cyfartal at ofal a chymorth, a phrofiadau cadarnhaol i bobl sy'n derbyn gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl.

Gall hyn gynnwys:

- Ymgysylltu'n barhaus â phobl sy'n derbyn gofal a chymorth, gofalwyr di-dâl a sefydliadau cynrychiadol.
- Adborth gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac ymarferwyr gofal cymdeithasol ynghylch gweithredu a chanlyniadau.
- Monitro adborth y gweithlu er mwyn deall heriau gweithredu ac unrhyw effeithiau ar les staff.
- Gwerthuso a yw'r Cod yn cefnogi ymarfer ataliol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

ADRAN C:

Datganiad Sicrwydd y Dirprwy Gyfarwyddwr

Rwy'n cadarnhau drwy hyn fy mod i, Taryn Stephens, yn fodlon bod y penderfyniad arfaethedig y mae'r asesiad yn ymwneud ag ef o natur strategol ynghylch sut i arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru.